


Focus *Forward*

ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- 
- Cymorth ac arweiniad ar bob agwedd ar wirfoddoli
 - Gwneud newidiadau cadarnhaol
 - Datblygu sgiliau a phrofiad
 - Gwella ansawdd eich bywyd
 - Cyflawni eich amcanion...

Cefnogaeth gymunedol i wella eich lles a dod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli sy'n gweddu i CHI

Beth yw prosiect Focus Forward?

Bydd cyfranogwyr o ardaloedd cod post cymwys Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael cefnogaeth unigol i'w helpu i wella eu hyder a'u sgiliau drwy ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli i bob oedran a gallu a hynny mewn amgylchedd hamddenol, cyfeillgar a deallgar.

Gallwn eich helpu chi i gyda'r pethau yr ydych CHI'N teimlo sydd eu hangen arnoch i wella eich lles a'ch hyder a chynyddu eich dealltwriaeth o grwpiau cymorth yn eich ardal.

Cydlynir ein prosiect gan BAVO mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae cyfleoedd gwirfoddoli yn cynnwys:

- Cynorthwyo/mentora;
- Cefnogi pobl ifanc neu bobl hŷn;
- Gweithio mewn siop elusen;
- Cefnogi pobl ag anghenion arbennig;
- Gyrru;
- Prosiectau cymorth cyffuriau ac alcohol;
- Yr amgylchedd a chadwraeth;
- Swyddogaethau ymddiriedolwyr a llawer mwy!

Pam ddylnw i wirfoddoli?

Gall gwirfoddoli fod yn gyffrous, yn heriol ac yn werthfawr. Mae'n fanteisiol i chi a'r unigolion neu'r grŵp yr ydych yn eu helpu. Mae grwpiau'n dibynnu ar wirfoddolwyr, felly gallwch wneud gwahaniaeth MAWR i'ch cymuned!

Mae gwirfoddoli yn:

- gwella eich hunanhyder, eich lles a'ch hunan-barch;
- eich helpu chi i gwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau newydd;
- eich gwneud yn aelod gweithredol yn eich cymuned;
- gallu eich cyflwyno i heriau newydd a dysgu sgiliau newydd i chi;
- gwerthfawrogi ac yn defnyddio eich gwybodaeth a'ch arbenigedd presennol;
- gallu arwain at lwybr gyrfa newydd ac mae'n gwella eich CV wrth chwilio am swyddi.

Cyfleoedd hyfforddi yn rhad ac am ddim

Bydd cyfranogwyr y prosiect sy'n byw mewn ardaloedd cod post cymwys yn gallu derbyn hyfforddiant YN RHAD AC AM DDIM i'w helpu i gyflawni eu swyddi gwirfoddol, gan gynnwys:

- Sesiynau ymwybyddiaeth o wirfoddoli;
- Cymorth cyntaf sylfaenol;
- Diogelu plant ac oedolion;
- Ffrindiau Dementia.

Am y cyfleoedd gwirfoddoli diweddaraf ewch i Bridgend.volunteering-wales.net

Mae cofrestru yn syml a bydd y wefan yn atgoffa gwirfoddolwyr o unrhyw ymrwymiadau sydd ar ddod yn ogystal â chofnodi cyflawniadau, sy'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer diweddarau eich CV!

Ewch i en.infoengine.cymru i weld yr holl wasanaethau gwirfoddol sydd ar gael!

Mae gan y wefan dros 4,000 o wasanaethau a gynigir gan fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Mae'r nifer hwn yn cynyddu'n ddyddiol. Mae'n rhad ac am ddim i'w defnyddio ac mae'r wefan yn tynnu sylw at yr amrywiaeth eang o wasanaethau gwirfoddol a chymunedol sy'n gallu darparu gwybodaeth a chymorth, er mwyn i chi allu gwneud dewis doeth.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â BAVO:

Ff: 01656 810400

E: bavo@bavo.org.uk



Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
112 – 113 Heol y Fasnach, Maesteg CF34 9DL
Ff: 01656 810400 • E: bavo@bavo.org.uk • www.bavo.org.uk
Rhif y Cwmni: 07691764 • Rhif Elusen: 1146543 • © BAVO Chwefror 2019

